

Cydymdeimlad a Chofion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Meirion Evans (Henllan) ganol yr wythnos. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Rhian a Gareth yn eu profedigaeth o golli tad annwyl a charedig. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Dymunwn ninnau fel teulu fynegi ein diolch am eich gweddiâu, ac am bob arwydd o gydymdeimlad â ni yn ein profedigaeth ddiweddar o golli dad, William Ellis Roberts (Hiraethog) neu Cwil Bryn Goleu i lawer ohonoch.

Gweddiwn y bydd pawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu ac yn profi Duw yn ddigon dros y Nadolig a thros yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Anfonwn ein cofion at Morfudd Jones (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Rhiannon Evans (Llansannan) a dreuliodd ychydig ddyddiau yno yn ystod yr wythnos. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Adnoddau Eglwys Bresbyteraidd Cymru

- **Pam Dathlu'r Nadolig?** – Ffilmiau Nadolig pwrpasol: darlenniadau Beiblaidd a gweddiâu. Gellir lawrlwytho'r ffilmiau trwy ymweld â <https://vimeo.com/showcase/6622645>
- **Ffydd yn y Gwaith** – Ffilmiau o weithwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn trafod eu gwaith a'u perthynas gyda Duw. Gellir lawrlwytho'r ffilmiau trwy ymweld â <https://vimeo.com/showcase/6567761>. Caiff ffilm newydd ei hychwanegu yn fisol.
- **Holi Hwn a Holi'r Llall** – Aelodau a mynychwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn rhannu eu profiadau ac yn sôn am eu cerddediad efo Duw. Cewch wyllo'r ffilmiau trwy ymweld â <https://vimeo.com/showcase/6567745>. Caiff ffilm newydd ei hychwanegu yn fisol yma hefyd.

I ddod

- **OEDFA DECHRAU'R FLWYDDYN** yng Nghapel Saron Wener, Ionawr 10fed am 7.00 gyda'r Parch. R. W. Jones, Wreccsam yn pregethu.



Llais Bro Aled
Rhagfyr 22^{ain} a 29^{ain}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi i wasanaethau Nadolig ein capeli heddiw. Ar ôl i'r Llais Bro Aled diwethaf gael ei gyhoeddi y daeth y newyddion trist am farwolaeth William Roberts, tad Mair Owen ein cynorthwy-ydd bugeiliol. Rydym fel bro am gydymdeimlo ag Eirwen Roberts, Mair a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth, a byddwn am eu cadw hwy, a nifer o deuluoedd eraill sy'n galaru, yn ein gweddiâu dros yr wythnosau nesaf.

Gan mai hwn yw Llais Bro Aled olaf 2019 rwyf am fachu ar y cyfle i ddymuno Nadolig bendithiol a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch a'ch teuluoedd. Ac i gyd-fynd â'r cyfarchion hyn, nid ydym am anghofio am gynifer o'n cydnabod fydd yn profi annifyrrwch dros y Nadolig ychwaith – rhai yn dygymod ag anhwylderau, eraill yn hiraethu ac yn gofidio. Cyflwynwn hwy i'r Arglwydd yn ein gweddiâu yn diolch i Frenin yr hollfyd ddod 'i oedfa ein hadfyd er symud ein penyd a'n pwn'.

Yn wahanol i gymaint o gardiau Nadolig a darluniau traddodiadol o'r Geni, does dim sôn yn yr Efengylau am faban wedi'i roi mewn preseb ym Methlehem â golau anesboniadwy yn disgleirio o'i gwmpas! Nid oherwydd ei fod yn edrych yn wahanol i bobl eraill yr oedd Iesu'n arbennig ond oherwydd pwy ydoedd, a'r hyn a gyflawnodd trwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Sawl gwaith yn ystod Ei weinidogaeth cawn dystiolaeth o'r dyrfa yn synnu ato oherwydd eu bod yn meddwl amdano fel saer, a mab i Mair (Marc 6:3). Ond eto, trwy gymorth Duw, mae Pedr yn gweld mwy na'r arwynebol gan ddatgan am Iesu – "Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw." (Mathew 16:16)

Sut ydym ni yn gweld Iesu heddiw felly? Fel cymeriad mewn hanes cyfarwydd, neu fel Achubwr cariadus sydd ar waith yn ein bywydau o ddydd i ddydd? A welwn ni Dduw cadarn sydd eto'n Gyfaill hyfryd wrth i ni droi'n golwg arno trwy lygaid ffydd?

Yn y Beibl cawn ein cymell nid yn unig i weld mewn ffordd arbennig ond i wrando ar Dduw, yn ogystal â'r anogaeth enwog honno o Salm 34:8 i brofi daioni Duw: 'Profwch a gwelwch mai da yw'r Arglwydd.'

Pan fyddwn ni yng nghanol y bwyd, synau'r clychau'n tincial a'r lliwiau llachar dros y dyddiau nesaf, gweddiwn am gymorth Duw i sylweddoli fod llawer gwell i'w gael trwy'r Arglwydd Iesu Grist. Er cymaint y gallwn fwynhau a gogoneddu Duw yn awr, nid yw'n ddim o'i gymharu â'r gogoniant sydd i ddod. Ydym ni'n barod am wledd dragwyddol gyda'r Arglwydd, ac ydym ni wedi derbyn Ei wahoddiad hael sy'n dod i ni trwy Efengyl ei Fab?

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 22^{ain}

Mercher – 25^{ain}

Gwener – 27^{ain}

- Ni fydd **Oedfa i'r Fro**.
- **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** – oedfa deulu yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **Taith Gerdded Hamddenol i'r Fro** ger Llyn Crafnant, Trefriw LL27 0JZ. (Ar ôl cyrraedd Trefriw, trowch i'r chwith gyferbyn â Gwesty'r Fairy Falls ac yna dilyn yr arwyddion am Llyn Crafnant.) Byddwn yn cychwyn y daith gerdded o'r maes parcio ar Ffordd Crafnant am 10.30, ac yna mae croeso i chi ddod i gael cinio (neu fyrbryd) yng Ngwesty'r Fairy Falls oddeutu 12.30. **Mae'n rhaid i ni archebu bwyd erbyn dydd Llun, Rhagfyr 23ain**, felly plŷs cysylltwch â Mair i gael gwybod beth sydd ar y fwydlen neu ewch i wefan www.thefairyfallshotel.co.uk/menu a rhoi eich archeb i Mair **erbyn bore Llun**, os gwelwch yn dda. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio, neu cysylltwch â Mair.
- **Oedfa i'r Fro** yng Nghapel Saron am 10.30.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Rhodri yn arwain. Edrychwch ymlaen hefyd i gael cwmni Carwyn Graves, Cydlynnydd Cymru i'r *Wycliffe Bible Translators* fydd yn sôn am waith yr elusen yn cyfieithu y Beibl i ieithoedd gwahanol ar draws y byd.

Sul nesaf – 29^{ain}

Sul canlynol – 5^{ed}

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 22^{ain}

Mercher – 25^{ain}

Sul nesaf – 29^{ain}

Sul canlynol – 5^{ed}

- Gwasanaethau Nadolig Llansannan: Yr oedolion yn y Granar am 10.00, a Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 gyda pharti i ddilyn yn y festri. Croeso i bawb!
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11.00 a chinio i ddilyn i bawb yn y Neuadd Goffa.
- Plygain wedi ei drefnu gan Gymdeithas Llansannan yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- Cynhelir Oedfa i'r Fro yng Nghapel Saron am 10.30.
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 22^{ain}

Mawrth – 24^{ain}

Sul nesaf – 29^{ain}

Sul canlynol – 5^{ed}

- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.30.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a Pharti Nadolig i ddilyn, a Gwasanaeth Carolau yn y Capel am 6.30.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a phaned a mins pei i ddilyn yn y Festri.
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Henllan am 2.00 a bydd y casgliad yn mynd tuag at elusen Dŵr Glân i bawb. Yna, ar ôl y gwasanaeth, bydd Parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn.
- Plygain yng Nghapel Llanefydd am 7.00 yr hwyr.
- Cynhelir Oedfa i'r Fro yng Nghapel Saron am 10.30.
- Bydd Gwasanaeth Undebol yr eglwysi yn Henllan am 10.30.
- Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30.
- Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 10.45.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 22^{ain}

Sul nesaf – 29^{ain}

Sul canlynol – 5^{ed}

- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuencid yn Saron am 11.00 a bydd Siôn Corn yn galw heibio.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 2.00. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd lluniaeth ysgafn ac ymweliad gan Siôn Corn.
- Cynhelir Oedfa i'r Fro yng Nghapel Saron am 10.30.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

**“Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr,
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.” (Luc 2:11)**

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (1^{af}), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.